



Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Dyma ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
A - Camau Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid		
Byddwn yn gweithredu chwe Cham y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid <i>(Cam gweithredu 12531)</i> 1. Nodi'r bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio 2. Broceru a chydlynu'r cymorth ar eu cyfer yn well 3. Tracio a symud pobl ifanc drwy'r system mewn modd mwy pendant 4. Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc 5. Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd am waith 6. Rhoi mwy o atebolrwydd er mwyn cyflawni deilliannau gwell i bobl ifanc	✓	Gan yr Awdurdod Lleol y mae'r rôl arwain allweddol o ran gweithredu'r fframwaith, ac mae'n gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuentid gwirfoddol, ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i sicrhau bod y rheiny sydd fwyaf mewn perygl o fod yn NEET neu sydd eisoes yn NEET yn cael eu hadnabod ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w cael nhw nôl ar y trywydd iawn. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn barhaus drwy gyfrwng gwaith staff yn y Gwasanaethau Cymorth Ieuentid a'r is-adrannau Trawsnewid Dysgu.
Byddwn yn cynnal hunanasesiad o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuentid yn erbyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. <i>(Cam gweithredu rhif 12532)</i>	✓	Mae hunanasesiad wedi'i gwblhau ac mae Cynllun Gweithredu ar waith, sydd bron â chael ei gwblhau erbyn hyn.
B – Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop		
Byddwn yn darparu elfennau lleol prosiectau Cam Nesa a Chynnydd. <i>(Cam gweithredu rhif 12533)</i>	✓	Cafodd y prosiect Cam Nesa rhanbarthol i leihau nifer y bobl ifanc 16-25 oed sy'n NEET ei gymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ym mis Tachwedd 2017. Penodwyd Rheolwr Prosiect ar gyfer Sir Gaerfyrddin bellach ac mae'r prosiect wedi dechrau cael ei gyflawni yn ystod Chwarter 4 yn dilyn penodi tîm o staff sy'n meddu ar y cymwysterau perthnasol.
Byddwn yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu fframwaith i gomisiynu cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed a darparu cwricwlwm amgen o Ionawr 2019 i ddisodli'r gwasanaethau a gynigir drwy Brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cynnydd, sydd i ddod i ben yn hydref 2018. <i>(Cam gweithredu rhif 12534)</i>	✓	Mae cynnig i ddarparu prosiect cwricwlwm amgen CA4 o fis Medi 2018, fydd â chysylltiad â mathau presennol o Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS), wedi'i gyflwyno er ystyriaeth i'r Tîm Rheoli Adrannol a Phenaeithiaid Ysgolion Uwchradd.
Byddwn yn datblygu gwasanaethau craidd i gefnogi pobl ifanc (15-25 oed) sy'n profi rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth oherwydd cyflwr cronig. Bydd y ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei seilio ar yr hyn a ddysgwyd mewn	✓	Eleni rydym wedi darparu gwasanaethau i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET drwy brosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop - Cynnydd. Hyd yma, mae dros 60 o bobl ifanc ag anabledd dysgu, problem iechyd meddwl neu gyflwr iechyd

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>perthynas â'r hyn weithiodd yn ystod rhaglen Cynnydd a phrosiectau Cam Nesa. <i>(Cam gweithredu rhif 12535)</i></p>		<p>cronig wedi cael cymorth i aros mewn addysg a/neu ennill cymwysterau. Rydym yn parhau i ddysgu o'r prosiect hwn ac yn trosglwyddo rhai o'r dulliau llwyddiannus i'r ddarpariaeth graidd drwy ddatblygu'r Tîm Cyfleoedd yn Hwyluswyr Cymunedol. Yn anffodus, oherwydd targedau cydymffurfio afrealistig, nid ydym mwyach yn gysylltiedig â'r prosiect Cam Nesa, er byddwn yn ymdrechu i rannu'r dysgu o'r prosiect hwn.</p>
C - Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin		
<p>Byddwn yn gweithredu 20 o argymhellion Adolygiad Strategol Addysg 11-19 Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu rhif 12536)</i></p>	✓	<p>Mae'r cynllun gwaith yn dangos y canlynol:- Mae 12 o'r argymhellion yn gyflawn - Gwyrdd Mae 8 argymhelliad yn mynd rhagddynt - Ambr Hyn a hyn o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran Argymhelliad 1 ac mae hynny wedi'i gysylltu â newidiadau i'r Cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru – Coch.</p>
<p>Byddwn yn cyflwyno llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chysiau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) i drigolion Sir Gaerfyrddin a newydd-ddyfodiaid i'r sir. <i>(Cam gweithredu rhif 12537)</i></p>	✓	<p>Mae darparu'r dosbarthiadau hyn yn barhaus fel rhan o'r darpariad tymhorol gan y Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.</p>
D – Adolygiad Dyfodol Llwyddiannus Sir Gaerfyrddin – Palmantu'r Ffordd		
<p>Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i "ennill cymwysterau da a chael addysg dda" ac yn cynllunio cyflogadwyedd pobl ifanc fel eu bod yn ffynnu yn y farchnad swyddi leol, ranbarthol a rhyngwladol. <i>(Cam gweithredu rhif 12539)</i></p>	✓	<p>Mae cynnydd parhaus yn cael ei wneud o ran cyflogadwyedd dysgwyr, o dan amserlen gweithredu adolygiad 11-19. Rydym yn parhau i ddatblygu ein syniadau fel bod llwybrau i gyflogadwyedd yn gallu clymu i mewn i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Yn ogystal, cyflwynwyd cais am arian ERASMUS+ sylweddol (i ddatblygu cwricwlwm syniadau Cyfrifiadurol a Dylunio o'r radd flaenaf ar gyfer Sir Gaerfyrddin) i'r Undeb Ewropeaidd ar 20 Mawrth, 2018. Rydym yn disgwyl canlyniad y broses ymgeisio ym mis Awst.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod Cydnerthu Cymunedol, gan gynnwys sicrhau bod gan bobl agored i niwed fynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn brif amcan yng nghynllun trawsnewid gwasanaeth dydd Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn cynnwys modelau newydd ar gyfer darparu'r gwasanaeth. <i>(Cam gweithredu rhif 12540)</i></p>	✓	<p>Yn ystod 2017/18, fe wnaethom ymgysylltu â'r tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd er mwyn adolygu gwasanaethau a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau. Datblygwyd strwythur llywodraethu gyda grŵp prosiect a nifer o ffrydiau gwaith. Gyda'r gwaith wedi'i wneud gan staff, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, rhieni, gofalmwyr, comisiynwyr a chydweithwyr sy'n rhoi cymorth, datblygwyd cynllun cymorth â blaenoriaethau allweddol, a nodwyd. Mae pob unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau wedi cael adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae 20 o staff wedi cael hyfforddiant fel hwyluswyr adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn ac ar hyn o bryd yn casglu'r wybodaeth i lywio ein model newydd o ddarparu gwasanaethau. Mae gennym</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		<p>dimau yn ymweld ag ardaloedd arfer gorau ledled Cymru ac rydym wedi gwneud cysylltiadau â Care 2 Co-operate er mwyn datblygu mentrau gofal cydweithredol sy'n cael eu cyfarwyddo gan ddinasyddion.</p> <p>Hefyd, mae grŵp prosiect yn cael ei ffurfio yn Rhydaman i edrych ar gyfleoedd i weithio gyda phobl hŷn a sicrhau y gwneir yr effaith fwyaf bosibl â'r adnoddau sydd ar gael i ni.</p>
E – Mesurau Perfformiad Cyffredinol		
<p>Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) <i>(PAM/009)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 2.1% / Targed 2017/18 - 2.0%)</i></p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 – 1.4% (27 allan o 1,875). Mae hyn yn unol â'r targed ac yn welliant, gan leihau o 40 y llynedd i 27 eleni. Mae gwaith partneriaeth gan ysgolion, staff gwasanaethau cymorth ieuencid ac asiantaethau allanol gan gynnwys Gyrfa Cymru i ddarparu Fframwaith Dilyniant ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn Sir Gaerfyrddin wedi arwain at ostyngiad yn nifer a chanran y bobl ifanc sy'n dod yn NEET. Rydym hefyd wedi gwella'n gymharol, gan symud o'r 17eg safle yng Nghymru i'r 13eg safle.</p>
<p>Byddwn yn gostwng % Ymadawyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) <i>(5.1.0.2)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 2.0% / Targed 2017/18 1.9%)</i></p>	✘	<p>Canlyniad 2017/18 – 3.0% (20 allan o 663). Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y cynnydd yn nisgyblion chweched dosbarth blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol yn dod yn NEET yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal <i>(SCC/34a)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 56.3% / Targed 2017/18 - 62.5%)</i></p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 – 72.2% - wedi rhagori ar y targed. Mae'r Tîm Rhianta Corfforaethol yn gwneud ei orau glas i helpu'r sawl sy'n gadael gofal i wireddu eu potensial llawn. Fodd bynnag, gall amrywiaeth o ffactorau ddylanwadu ar fywydau pobl ifanc e.e. iechyd meddwl, anawsterau dysgu a bod yn rhieni ifanc amser llawn. Mae'r niferoedd yn y garfan yn fach iawn, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar y canlyniad terfynol o flwyddyn i flwyddyn. Bydd ffocws o'r newydd ar y maes hwn yn ystod 2018/19.</p>
<p>Byddwn yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn sicrhau eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 24 mis ar ôl gadael gofal <i>(SCC/34b)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2016/17 – 50% / Targed 2017/18 - 55%)</i></p>	✓	<p>Canlyniad 2017/18 - 64.3%. Wedi rhagori ar y targed. (Gweler uchod).</p>